**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCyllid@senedd.cymru

29 Mehefin 2023

Annwyl Peredur,

Yn ein cyfarfod ddydd Mawrth 20 Mehefin, gwnaethom drafod amserlen Cyllideb 2024-25. Dywedais y byddai’r Trefnydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes bythefnos cyn diwedd tymor yr haf i nodi amserlen ddrafft ar gyfer pryd y caiff Cyllideb Ddrafft 2024-25 ei gosod, a chynnig y gyllideb flynyddol ei gyflwyno.

Gwnaethom gydnabod nad yw Canghellor y Trysorlys wedi cyhoeddi dyddiad y digwyddiad cyllidol eto pan fyddwn yn cael gwybod union fanylion ein setliad cyllidebol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Er bod gennym eisoes ddyraniadau cyllidebol dangosol o dan yr Adolygiad o Wariant amlflwyddyn, mae’r pwysau sylweddol yn sgil chwyddiant ers yr Adolygiad hwnnw, ynghyd â llawer o ansicrwydd hyd nes y caiff ein setliad terfynol ei gadarnhau, yn golygu ein bod yn debygol o wynebu dewisiadau heriol unwaith y byddwn yn gwybod beth fydd ein setliad. O ganlyniad, yr unig ddewis call unwaith eto yw dilyn amserlen gyllidebol debyg i amserlen y blynyddoedd diwethaf, sef cyhoeddi ein cyllideb ddrafft tua diwedd tymor yr hydref.

Mae cyhoeddi cyllideb ddrafft wrth ddysgu manylion ein setliad cyllidebol terfynol mor hwyr yn creu heriau o ran datblygu cynlluniau gwario adrannau ac o ran gwaith craffu’r Senedd. Mae’r amserlen yr ydym yn bwriadu ei dilyn yn cydnabod yr angen i ddarparu digon o amser i sicrhau y gallwn baratoi’n effeithiol at y gyllideb a darparu lefel briodol o fanylder yn ein dogfennau ar gyfer y gyllideb, gan hefyd sicrhau cymaint o amser â phosibl i’r Senedd graffu arnynt.

Mae Rheol Sefydlog 20.6 yn gwneud darpariaeth i’r Pwyllgor wneud newidiadau i’r amserlen ar gais y Llywodraeth. Yn ddarostyngedig i hyn, ac ar y ddealltwriaeth y byddwn yn darparu amserlen gadarn cyn gynted â phosibl ar ôl i Lywodraeth y DU wneud cyhoeddiad ynghylch ei Chyllideb, mae’r Trefnydd wedi nodi ein bod yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb ddrafft amlinellol a'r Gyllideb ddrafft fanwl gyda'i gilydd ar **12 Rhagfyr 2023**, a'r Gyllideb derfynol ar **27 Chwefror 2024**.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel y gwnaethom drafod, byddai’r dyddiadau hyn yn golygu bod angen i’r Pwyllgor Cyllid gyhoeddi ei adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft ar neu cyn dydd Llun 5 Chwefror er mwyn gallu cynnal y ddadl ar y Gyllideb Ddrafft ddydd Mawrth 6 Chwefror.

Rwyf yn parhau i fod yn ymwybodol o Reol Sefydlog 20.5 a’r trefniadau y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a’r Senedd ynghylch y cyfnod ar gyfer craffu. Mae Rheol Sefydlog 20.5 yn darparu, o dan amgylchiadau ‘arferol’, fod y Pwyllgor Cyllid yn cael wyth wythnos i adrodd ar gynigion y gyllideb amlinellol a phum wythnos i bwyllgorau ystyried cynigion manwl y gyllideb. Er na ellir galw’r flwyddyn hon yn flwyddyn ‘arferol’ o dan y fersiwn bresennol o’r Rheolau Sefydlog a Phrotocol y Gyllideb, rydym wedi ymrwymo o hyd i sicrhau’r craffu llawnaf posibl ar ein cynigion gwario. O ganlyniad, byddai’r amserlen yr wyf wedi’i hamlinellu’n galluogi saith wythnos a phedwar diwrnod i graffu ar y Gyllideb Ddrafft, sef pedair wythnos a phedwar diwrnod eistedd a thair wythnos nad ydynt yn wythnosau eistedd.

Pe bai cyhoeddiad y Canghellor yn ddigon cynnar i ganiatáu amser ychwanegol i baratoi’r Gyllideb Ddrafft a chraffu arni, byddwn i’n bwriadu ailystyried y dyddiadau cyhoeddi.

Fel yn y blynyddoedd diwethaf, gan gydnabod yr effaith ar y Senedd, rwyf yn fwy na pharod i gefnogi gwaith craffu rhag-gyllidebol y Pwyllgor a byddaf yn parhau i ddarparu gwybodaeth i’r Pwyllgor cyn toriad yr haf ynghylch ffactorau amrywiol y gellir ei defnyddio i gefnogi cynllunio ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol.

Rwyf yn ddiolchgar am ddealltwriaeth y Pwyllgor a hyderaf fod y trefniadau hyn yn dderbyniol o gofio’r amgylchiadau sy’n cael eu gyrru, unwaith eto, gan ffactorau allanol y tu hwnt i’n rheolaeth.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**